Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliv. MEHEFIN, 1944. Rhif 6.

Caniadaeth y Cysegr.

Gan Miss K. Jones, Gellifaharen.

Some to church repair
Not for the doctrine but for the music there—*Pope.*

Diamau bod cyfran helaeth o wirionedd yn y llinellau hyn. Tros gan mlynedd yn ôl cenid y bass viol ymhob un o'r saith gapel Undodaidd a oedd y pryd hynny yng Ngheredigion. Yn chwech ohonynt gellir olrhain yr arfer. Pallodd y cwstwm bellach, ond y mae'r hanes yn deilwng o'i groniclo. Am yr hanes hwnnw y mae'r ysgrifennydd yn ddyledus i'r bardd a'r hynafiaethydd, Mr. Cledlyn Davies, y Parch. Simon Jones, B.A., Mrs. Jenkins, Blaen Waun Ganol, Mr. D. Jenkins, Pentrefelin, ac eraill.

Gwaith Shôn Isaac oedd y saith viol. Ychydig sydd ar glawr am Shôn Isaac, ac anwybyddus yw dyddiad ei eni a'i farw. Yr oedd ef, yn ogystal a'i frawd Shams, yn frodorion o Gwrtnewydd, a dysgwyd hwy yn gynnar yng nghelfyddyd cerdd dannau. Eu hathro oedd y cerddor enwog, Dafydd Llwyd (1767—1839). Profodd Shôn ei hun yn ddysgwr medrus. Heblaw'r saith viol gwnaeth Shôn dair telyn. Gwelwyd un ohonynt yn Highmead (Dolau Bach) rai blynyddoedd yn ôl ; rhoddwyd un arall yn anrheg i deulu Llwynwermod ; ac y mae'n bosibl i'r drydedd fynd i feddiant Admiral John Thomas a oedd yn byw yn yr ymyl yn Llanfechan rhwng 1786 a 1810.

Diddorol gwybod fod Evan Williams o'r Red Lion, Llanybydder, a fu farw yn 1908 yn 93 mlwydd oed, yn cofio Shôn yn dda, a chlywyd ef yn adrodd y stori hon amdano. Fel llawer cerddor arall rhyw garreg dreigl ydoedd Shôn. Ymunodd â'r Mormoniaid, ond druan ohono, ni chyrhaeddodd Salt Lake City. Cychwynodd i'r Amerig, a chymerodd gydag ef ei feddiant anwylaf—ffidl o'i waith ei hun. Ac yntau'n difyrru ei gyd-deithwyr ar fwrdd llong cyn hwylio, daeth beili ar ei warthaf. Gweithredasai hwnnw dros

garier yr oedd Shôn yn ei ddyled. Llwyddodd i gymryd y ffidl o law ei pherchennog. Yr oedd ing y golled gymaint i Shôn nes iddo dorri ei galon, a chladdwyd ef yn y môr.

Saith delyn a oes o waith dwylo Siôn
A saif heb falurio ;
Yn fud iawn fe daw heno
Gordiau aur ei gariad o. *Cledlyn.*

Crydd ydoedd Shams Isaac, ac yr oedd yn byw ym Mherth yr Onnen, Tregroes. Ef ydoedd hefyd arweinydd y gân yng nghapel Pantydefaid. Gydag ychydig ddychymyg gellir ei weld yn sefyll yn y sêt fawr, yn arwain y canu a'i fwa yn ei law.

Yn ei ddydd yr oedd Shams yn ddyn o bwys, cwnstabl a chasglwr y dreth dros blwy Llandysul, a'r unig athro canu mewn cymdogaeth eang. Bu farw yn 1855, a chladdwyd ef ym mynwent Pantydefaid. Yng nghofnodion y capel disgrifir ef fel cerddor enwog.

Gor-wyr i Shams oedd yr hynafiaethydd talentog, John Davies o Gapel Dewi. Cofir yn hir amdano fel casglydd achau teuluoedd ac am ei waith rhagorol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Perthynas arall iddo oedd nith, Nansi Maesyffin. Dysgwyd hi yn ifanc i ganu gan ei hewythr, ac yr oedd ei ddosbarth ym Mhantydefaid yn boblogaidd iawn. Mewn blynyddoedd diweddarach bu'n gofalu am gartref y ddau frawd dibriod, John a Timothy Evans, ym Mhenlan Gyfeile. Yn hen ac yn ddall bu farw yng nghartref ei nith yn Rock, Tregroes yn 81 mlwydd oed. Gor-nai i Shams yw John Evans, Pantycreuddyn, yn awr yn ei chwechfed blwyddyn wedi'r pedwar ugain. Bu yng ngwasanaeth teulu'r ysgrifennydd am fwy na hanner canrif. Yn anffortunus y mae yntau'n ddall. Yn hwyrddydd ei ddydd y mae'n treulio'r amser yn hamddenol.

Y bass viol slawer dydd yw'r ' cello ' heddiw, ac yn ei ffurf y mae'n debyg i'r violin. Yn wir rhagredegydd y violin ydyw. Y mae iddi bedwar o dannau ac wyth stop. Cenir y tannau â bwa. Yn amser y frenhines Elizabeth yr oedd yn offeryn poblogaidd, a chyfeirir ati gan Sir Toby Belch, cymeriad yn nrama Shakespeare, "Twelfth Night."

Ar y llaw arall, offeryn sy'n hynod i Gymru yw'r crwth. Y mae iddo chwech o dannau. "Drones" ydyw'r ddau dant isaf, a chenir hwy â'r bawd. Am fod gwneuthuriad y crwth a'r violin mor debyg gelwir hwy yn fynych wrth yr un enw. Fe glywir yn aml ar lafar gwlad yn Sir Aberteifi yr ymadrodd "fel crwth a thelyn"—gwawdiaith ar ddeuddyn tra hapus.

Offerynau gwynt yw'r bassoon, clarionet, flute, a'r oboe, a gwasanaethant yn yr orchestra fodern. Y mae llawnder yn nhôn y cyntaf, a golyga'r enw mai dyma'r bass mewn cwmni o chwaraewyr. Gan amlaf defnydd y clarionet yw pren. Ffefrir y flute, pibell y mae ynddi dyllau ar gyfer y bysedd, ac allweddau. Offeryn

tebyg yw'r oboe ; y mae iddo bymtheg o allweddau, tôn feinllais, a hwn sy'n taro'r nodyn i'r violin yn y gerddorfa.

Nid yn unig yng Ngheredigion yr oedd y bass viol yn gyffredin y Nhŷ Dduw. Ymhlith llawer o fannau eraill ceir cofnod o'r arfer yn Llanfechell yn Sir Fôn, yn Preston swydd Rutland. Yn y lle diwethaf hwn yr oedd cerddorfa enwog yn Eglwys y Plwy, yn cynnwys 'cello, clarionet, bassoon, a flute, yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hanodd Thomas Hardy, y nofelydd enwog, o deulu cerddgar, ac yn ei fywgraffiad cyfeirir yn fynych at y math yma ar ganiadaeth y cysegr. Bu ei dadcu, gyda'i ddau fab, yn canu'r viol yn eglwys Stanisford, swydd Dorset, am yn agos i ddeugain mlynedd.

Er fod cysylltiadau Shôn Isaac â chymdogaethau Galltyplaca a Chwrtnewydd yn agos iawn mor ychydig yw'r wybodaeth am ei waith. Dywed traddodiad fod un, Jacob Herbert o Gwrtnewydd, yn canu'r viol gyda'r cantorion yn amser y brwydrau cyntaf dros ryddid crefyddol cyn codi Capel y Bryn. Yn ddiweddarach aeth i fyw i Bantglas, Talgarreg, ac yno bu'n fawr ei barch ymhlith ei gymdogion fel bardd a meddyg. Ei fab, James Herbert, yw awdur yr emyn prydferth :

Gwelaf dros ganllawiau amser
Ffrwythlon dir y bywyd draw,
A phrydferthwch pennaf pleser
Yn ymagor ar bob llaw ;
Hardd blanhigion
Sydd yn perarogli'r wlad.

Yng nghlwm yn aml yng nghalonnau dynion y mae'r serchiadau at gerdd dafod a cherdd dannau.

Ysgrifenna'r Parch. J. Islan Jones, M.A. fod David Jenkins, mab yr Undodiaid brwdfrydig hynny, Thomas a Deborah Jenkins o Rydybenne, yn canu'r 'cello yn y Cribyn.

I'n hadgofio am yr arfer yng Ngalltyplaca* dim ond rhai darnau o'r viol wreiddiol sydd yn aros. Hyd rhyw ddeugain mlynedd yn ôl yr oedd y rhain yng ngofal y diweddar Mr. Bowen, Maesyfelin.

Yr oedd canu yn rhan o draddodiad hen deulu Blaen Waun Ganol. Bu David Jenkins farw yn 1899, oedran 82, yn fawr ei barch. Mewn materion lleol yr oedd ei ddylanwad yn fawr, ond ar wahan i amaethyddiaeth ei ddiddordeb pennaf oedd caniadaeth y cysegr. Bu'n arwain cerddorfa fechan, yn cynnwys violin, viol, a flute, yng Nghapel y Groes. Ar adegau pwysig arferai Mr. Bowen, Maesyfelin, eu cynorthwyo gyda'r bass viol o Allty-

*PLACA—Dywedodd y diweddar Mr. Thomas Thomas, Cyfreithiwr, Llandysul wrth yr ysgrifennydd mai hen air yw placa am hebog neu gudyll. Galltyplaca .. Hawk's Wood.

placa. Byddai David Jenkins a'i violin yn arwain. Yn canu'r flute byddai ei nai, diweddar aelod o deulu presennol Ffynnon Fair. Yn arwain y canu y pryd hynny yr oedd John Lloyd Pantywilco ; ef oedd yn canu'r bass viol ; flynyddoedd yn ddiwedd-, arach ef oedd arweinydd ein cymanfa ganu gyntaf.

Trysordy hen offerynnau, hen lawysgrifau, a hen lyfrau yr oedd Blaen Waun. Diamau bod y violin yn offeryn gwerthfawr. Y mae'n dwyn dyddiad ac enw ei saernïwr—Stainer 1622—ac yn awr y mae ym meddiant Mr. Leslie Jenkins, mab y diweddar Barch. James Jenkins, Birkenhead. Er ei thawelwch hir bellach daeth llawer melodi hyfryd o'r flute. Mewn llyfr llawysgrif, dyddiad 1844, o law David Jenkins, ceir y tonau a'r anthemau a genid yn ei amser ef. Gwrthrych diddorol yw'r *walnut case* yn cynnwys tuning fork—ynddo y mae gwifren ar gyfer bob nodyn yn y raddfa. Ond y mwyaf diddorol, hwyrach, yw gweddillion bass viol Shôn Isaac. Dim ond y "bont" yn unig sydd yn aros heddiw i ddangos ei grefft, ac yn ddiweddar daethpwyd o hyd i honno gan Mrs. Jenkins.

Y mae'n wybyddus fod y bardd Amnon yn gerddor hefyd, yn aelod o'r gerddorfa ym Mhantydefaid rhwng 1820 a 1830. Yn ei feddiant yr oedd amryw offerynau, yn eu plith violin o dôn felys iawn a roddwyd i Dr. Goronwy Jones, Abertawe gan y diweddar Mrs. Thomas, Frondolau, wyres i'r bardd. Mewn llythyr (heb ddyddiad) at ei frawd, y Parch. John Jones, Aberdar, dywed Amnon iddo fod ym Mhantydefaid gyda'r canu, a bod y tŷ yn fwy llawn nag arfer, bod Mr. Thomas yn ymddangos yn foddhaus, ac iddo ddweud ei fod yn ddiolchgar iddynt.

Bu'r hen arfer yn boblogaidd iawn ym Mhantydefaïd, yn arbennig rhwng 1845 a 1850. Sonia Dewi Hefin am amgylchiad y mae iddo ochr drist a ddigwyddodd yn y cyfnod hwn. Yn ystod yr "hungry forties," y prisoedd yn isel a'r cyflogau'n is, y trueni a'r dioddefaint yn fawr, gorfu i lawer teulu o ffermydd y mynydd ymfudo i'r America, yn eu plith yr oedd aelodau o gynulleidfa'r Cribyn. Un prynhawn Sul cynhaliwyd yno gyfarfod arbennig er mwyn ffarwelio â hwy. Daeth cantorion Dyffryn Cletwr yno gyda'u hofferynau, y bass viol, flute, clarionet, a'r bassoon. Yn arwain yr oedd David Jones, Gwardafolog (gynt o Gilfachdafydd), ac amgylchiad cofiadwy ydoedd.

Yn ei ddyddiadur cofnodir gan y Parch. John Thomas—Aug. 29th, 1849. Went to Pantydefaid, pretty good congregation, the singers had their bass viol, horns, etc.

Y mae'r unig hanes am yr hen arfer yng Nghiliau'n gysylltiedig â Griffith Humphreys (Gruffudd y Gwehydd), codwr canu a chlochydd Dihewid. Gwahoddwyd ef gan gynulleidfa Ciliau i gynnal ysgol ganu yno, a gwaneth hynny am gryn amser. Yr oedd ei lais rhagorol a'i brofiad helaeth gyda cherddorfa'r eglwys yn gymorth mawr iddo.

Hwyrach mai meddiant Ystrad neu Rhydygwin oedd y viol goll. Pwy a wyr ?

THE DECAY OF SHON ISAAC'S ART.

In Eighteen Forty Three I wean
The rage was Isaac's art,
But Nineteen Forty Three hath seen
His instruments depart.

Old Father Time devoureth still
Man's loveliest design,
Gone, gone for aye is Isaac's skill,
His handicraft divine.*

His sweet toned crwth none could surpass,
But through our land nor Hun nor Goth
Hath ravaged since, his art, alas !
Hath crumbled, eaten by the moth.

Cledlyn.

Nodwedd amlwg yn y mudiad hwn yn Nyffryn Aeron oedd ei undeb enwadol, yr Eglwyswr, yr Annibynwr, a'r Undodwr yn cyduno yng nghaniadaeth y cysegr. Y gwr blaenllaw gyda'r mudiad yn eglwysi Dihewid a Chiliau oedd y Parch. Henry Davies a fu am gyfnod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghwmaman. Hanodd o Drecornel, Dihewid, ac yr oedd ei alluoedd canu yn fawr. Cymrai ddiddordeb yn y gerddorfa, a cheir rhestr o'r aelodau :—

John Davies, brawd Henry Davies. Clarionet a Flute.
David Herbert, Penrhiwfelen, Rhiwbren. Clarionet.
Enoch Cwmcastell, Llanarth. Bass Viol.†
Griffith Humphreys (Gruffudd y Gweheydd). Oboe.
Thomas Jones, Cwm-mawr.
John Blaencanog.
Beto Evans, Maesglas.
Mary Evans (nith i Beto).

Bu David Evans, Faenog Ucha, Relieving Officer, disgybl John Jones, Felin Llyswen, yn cadw ysgol ganu yn Nihewid. Dysgai elfennau cerddoriaeth yn yr Hen Nodiant, ond yng nghwrs yr amser dim ond John Blaencanog a Henry Davies a allai ei ddilyn.

Un o'r pileri yn eglwys Ciliau oedd Rees Jones, Ciliau Uchaf, a theimlai'r angen am ddyn cymwys i gadw yr ysgol ganu yno. Gyda'r bwriad hwn gwahoddodd y gerddorfa i'w gartref un prynhawn Sul. Yn y cwmni yr oedd David Davies (Clochydd),

*Wedi cyfansoddi'r llinellau hyn, daeth Mrs. Jenkins, Blaen Waun Ganol ar draws darn o offeryn Capel y y Groes—"pont" viol Shon Isaac.

†Digon tebyg mai perthyn i gapel Ciliau oedd y viol hon.

David Masiwn (Undodwr), Thomas Matthews, Tomos Teilwr. Apwyntiwyd Henry Davies, a chyflawnodd y gwaith am ddwy flynedd. Pan ymadawodd i fynd i Goleg Aberhonddu yn 1865 cymrwyd ei le gan John Jones o Aberaeron, yn fwy adnabyddus fel Jones Bach y Cantwr. Am fwy na deng mlynedd ar hugain bu'r dyn nodedig hwn yn creu cariad at gerddoriaeth drwy'r cymdogaethau, a rhoddodd sylw arbennig i ganu cynulleidfaol. Mewn trigain o gapeli a hanner cant o eglwysi bu'n cynnal ei ddosbarthiadau Sol-ffa. Ef oedd un o arloeswyr y method yng Ngheredigion. Coronwyd ei ymdrechion a llwyddiant. Yr oedd symlrwydd y sistem newydd yn apelio at y bobl ieuainc. Gwellhawyd y canu cynulleidfaol, ond diflanodd yr offerynau cerdd o'r cysegr.

Twm Shôn Cati.

Un o'r llyfrau Cymraeg digrifaf a difyrraf a ddarllenwn i'n awchus ym more f'oes oedd *Twm Shôn Cati*. Pwy a'i hysgrifennodd, a pha bryd, nis gwn. Megys amryw o'm trysorau eraill, aeth y llyfr hwnnw ar goll ers llawer dydd. Tybiaswn am hir amser mai cymeriad cwbl ddychmygol oedd arwr yr hen stori ; ond gwn erbyn hyn nad gwir mo hynny. Ei enw iawn oedd Thomas Jones, a aned yn Sir Aberteifi rywbryd tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywedir iddo dreulio rhai blynyddoedd mewn lle o'r enw Porth y Ffynnon, yn agos i Dregaron ; ac efallai mai yno y ganed ef. Peth sy'n ddiamheuol yn ei gylch ydyw ei fod yn ŵr o ddawn, galluoedd cryfion, a bywiogrwydd anghyffredin. Pa fodd, ynteu, y mae cysoni'r chwedlau dirif a daenid gynt led-led y wlad am Twm Shôn Cati â'r hanes parchus a geir amdano gan awduron dilys a dibynnol? Y mae'n anodd gwybod. Barn un bywgraffydd yw, bod Thomas Jones fel llanc ifanc yn fath o Robin Hood Cymru—"yn ysbeilio, lladrata, a chwarae campau o bob math," nes mynd o'i enw a'i gastiau "yn air teuluaidd" trwy'r holl wlad. Yn yr oes honno, gwneid llawer o driciau drwg gan ladron ac eraill hyd yn oed yn sir urddasol Aberteifi, ond rhoid y bai am y cwbl ar gefn llydan Twm fab Cati ! Pan fyddai llwyth o Sipsiwn yn gwersyllu mewn cymdogaeth, gwneid hafoc ar y gwyddau a'r ieir ac ednod eraill y ffermydd ; eithr sicr yw nad y Sipsiwn fyddai'n gyfrifol am hyn oll, er bod eu presenoldeb yn rhoi cyfle i ladron lleol ladrata heb gael ohonynt eu drwgdybio. Yr un modd daeth enw arswydlon Twm Shôn Cati yn fantell i guddio lladradau na wyddai efô ddim amdanynt.

Heblaw hynny, aethai o leiaf ganrif neu ddwy heibio ers dyddiau Thomas Jones y llanc direidus cyn cyhoeddi'r llyfr sy'n honni

dywedyd hanes *Twm Shôn Cati*. Fel y gŵyr pob efrydydd deallus, tuedd chwedlau cefn gwlad ydyw chwyddo gyda threigl blynyddoedd, gan esgor ar lu o chwedlau eraill wrth gael eu hadrodd a'u hail-adrodd o enau i enau ac o'r naill oes i'r llall. Yn awr, a chaniatau ddarfod i'r llanc Twm fab Cati gyflawni rhai castiau digrif a deheuig, nid rhyfedd i ryw hanner dwsin o storïau ysmala amdano fynd yn hanner mil cyn i ryw athrylith ddechrau mynd ati i'w gosod yn drefnus mewn llyfr. Ym mhob oes a gwlad y mae tuedd mewn dynion i briodoli pethau da, yn ogystal â phethau drwg, i rai a fu yn eu dyddiau yn enwog yn llinell y cyfryw bethau. Gan fod Dafydd frenin, yn ôl pob tebyg, wedi cyfansoddi rhai salmau gweddol dda, tuedd esbonwyr ydyw priodoli *pob* salm dda iddo ef; a chan fod Solomon ei fab yn enwog am ei ddoethineb, daeth traddodiad o dipyn i beth i briodoli iddo ef gyfanswm diarhebion a'r rhan fwyaf o Ddoethineb llenyddol yr Hebreaid gynt. Yn ein gwlad fach ein hunain, ers blynyddoedd bellach, priodolir ymron bob cân ddigrif i Twm o'r Nant, ac ymron pob emyn gwych un ai i Williams o Bantycelyn ynteu i Ann Griffiths—nid am mai Twm o'r Nant bioedd y gân nac am mai na Phantycelyn nac Ann Griffiths a gyfansoddodd yr emyn. Eithr am fod y naill yn rhigymwr digrif a'r lleill yn emynwyr o fri, rhoddir y clod iddynt am bethau na bu a wnelont ddim â hwynt. Yr un modd, delir ambell ddyn celwyddog yn gyfrifol am holl gelwyddau cymdogaeth; a rhyw un lleidr a fu mor anffodus â dyfod i'r golau, yn gyfrifol am holl ladradau cefn gwlad!

Nid oes dwywaith amdani na bu'r duedd hon yn ddiwyd iawn yn casglu garlantau cymysglyd o warth a gwrhydri i'w cylymu am arleisiau'r gwron o Dregaron gynt. Beth bynnag am hanes Thomas Jones yn nhymor gwyllt ei ieuangrwydd, ceir profion anwadadwy ddarfod iddo ddyfod yn ystod ei oes yn hynafiaethydd enwog, yn fardd gwych, ac yn achyddwr digymar. Ymbriododd â gwraig fonheddig o waedolaeth uchel a chyfoeth mawr; ac fe'i gwnaed yn ustus heddwch yn Sir Frycheiniog. Bu am gryn amser yn byw yn nhref Aberhonddu; ac am ei fod o ran ei wybodaeth ymhell uwchlaw'r cyffredin, aeth sôn ar led ymysg ei gymdogion anwybodus ei fod ef mewn cyfathrach agos a mynych ag ysbrydion drwg. Yr oedd y Doethor John David Rhys, gŵr dawnus a llengar, yn byw yn Aberhonddu yn amser Thomas Jones, ac fel hyn yr ysgrifenna ef amdano:

"Pwy bynnag a broffeso fod yn fardd achyddol, rhaid iddo wybod llinachau brenhinoedd a thywysogion, a bod yn gyfarwydd yng ngweithiau tri phrif feirdd Ynys Prydain—Merlyn ap Morfryn, Merlyn Ambrosius, a Thaliesin Ben Beirdd. Ac yn y wybodaeth o achyddiaeth—am wir ddisgyniad, eirfarwyddion, urddasau, a gweithredoedd clodwiw bonedd Cymru—y mwyaf clodfawr, galluog, a chywir, yn ddiamheuol ydyw Thomas Jones, Porth y Ffynnon,

ger Tregaron. A phan gleddir ef, y mae'n amheus a geir ei gystal am hir amser ar ei ôl ; yn wir, nid tebyg y ceir byth neb a ddaw'n agos ato mewn cyfarwydd-deb yn y wybodaeth hon."

Fel yr awgrymwyd eisoes, blodeuai Thomas Jones rhwng canol yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ganrif ddilynol ; ond dywedir gan ysgrifennydd yng *Ngeiriadur Bywgraffyddol Enwogion Cymru*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1870, fod :

"llysenwad ohono dan yr enw Twm Shôn Cati mor fyw yng Nghymru heddiw ag erioed, a theithwyr o bell ac agos yn ymdyrru i lannau creigaidd Tywi i syllu mewn syndod ar yr ogof a ystyrid gynt yn ystordy ei nwyddau lladradaidd."

Diau bod gronyn o ormodiaith yn hynyna. Beth bynnag am hynny, os gwn i a erys gronyn o wirionedd ynddo hyd heddiw. Yn fy nhyb i, nid neb heblaw hen fobl fel minnau sy'n gyfarwydd hyd yn oed â'r llysenw Twm Shôn Cati ; o'r hyn lleiaf, nid byth y gwelir cyfeiriad ato men llyfrau cyfoes. Mi hoffwn i'n fawr weled dadebru diddordeb yng nghampau'r hogyn direidus Twm Shôn Cati.

Chislehurst, Caint. DEWI HIRADDUG.

Magwyrydd Candryll.

Gan D. LLEWELYN MORGAN, D.O. (Eng.), N.D. (Ldn).

TERM sydd bron mynd o fod heddiw ydyw 'Magwr' neu 'furddyn' (hen dŷ adfeiledig), ond ni fu cymaint ohonynt erioed yn hanes ein byd gwareiddiedig nac yn y flwyddyn hon oblegid y mae miliynau o anneddau heddiw'n gandryll drwy'r broses erchyllus o fomio.

Pan gaf hamdden weithian, hoffaf fynd at hen furddyn—hen aelwyd wledig a gofiwn yn ei lliw gore dechrau fy mywyd. Erbyn hyn, mae'r glaswellt ïr yn drwm tros garreg yr aelwyd, a'r tyllog dô yn un a'r llawr dan ergyd a chynddaredd ystorm. Mae'n rhyfedd—ond i ni sylwi yn fanwl—mor gyflym yr adfeilia hen annedd gwedi symud ohoni ei deiliaid. Mae tŷ rywsut, fel pe'n "deall" ystyr gwacter yn well na dyn. Sylwch ar eco llais mewn tŷ neu, hyd yn oed, ystafell wag. Mae'n oeraidd annaturiol. Cyfarwydd wyf â hen fythynnod y mwnwyr yng ngogledd Sir Aberteifi. Gwelais ddegau ohonynt yn ystod y chwarter canrif diwethaf yn mynd yn un â'r llawr a'r caeau bychain yn mynd yn un â chaeau'r plas neu'r amaethdy cyfagos. Golwg brudd yw hon a chyn belled ag y mae'r tiroedd yn y cwestiwn, mater a ddylasai gael sylw'r llywodraeth ydyw yn enwedig ar ôl y rhyfel.

Nid term gwych yn fy marn i yw "Corff" ar y rhan faterol o

fywyd dynol. Mae term fel y "ddaearol babell" neu'r "deml ddaearol" yn fwy swynol ond hwyrach y ceir gwell term na "corff" ryw ddydd. Cleuog iawn fyddai "pridd-dy" arno hefyd, er mai pridd o'r pridd ydyw ac mai yno y dychwel—

Yn ddarn oer ar fynwes oerach,
I fadru tan bridd a llech.

Ond nid y corff mo'r dyn ; nid y dyn yw ei gorff. "Man is many sided" ebe sylwedydd Seisnig, ond gwell fyddai dweud fod dyn yn rhannog iawn, ac yn ôl stori hen walch cywrain eu syniadau "Mae gan ambell ddyn wyneb at bob cylch ac amgylchiad."

O bob safbwynt, mae'r olwg ar ddyn heddiw yn hollol anfoddhaol ; nid oes ynddo y cadernid dynol, ond mae'n ofynnol mynd i wraidd achos y maluriad. Yn y ddeunawfed ganrif yr oedd dyn (yng Nghymru) yn dechrau dringo allan o oesau o gaethiwed y trefnau anffafriol ynglyn a gwaith, cyflog, crefydd, addysg, ymgeledd, triniaethau corfforol a meddyliol, ond, yn union wedi cyhoeddi'r rhyfel fawr 1914—1918, gorlwythwyd ei feddwl a llu o syniadau o du gwelliannau cyffredin ac anghyffredin. Rhidyllwyd gryn lawer ar ei gyn-allu o ddyfalbarhad mewn un llinell o feddwl neu astudiaeth. Ehangodd ei fyd ynghylch ugain mlynedd i'r fath raddau fel na fedrai ganolbwyntio ei olygon ar ei *gyflwr ei hun*, ac oherwydd hynny, cychwynodd y broses "fagwreiddiol" (os mentraf ar derm newydd am dro) yn ei bersonoliaeth, gyda'r canlyniad ei fod heddiw ymhellach o'i gael ei hun at ei gilydd yn hapus-drefnus nag erioed yn ei hanes diweddar.

Sonnir digon heddiw am y giau (Nerves) yn mynd yn gandryll tan bwysau gofalon, pryder a galar, yn wir, nid oes glwy cyn ddolurus na hwn oblegid methiant corfforol poenus ydyw, ac anodd ei wellhau yn y drefn arferol. Ond anfynych y bydd nemor yn son am anhwylder *synhwyrol-ysbrydol*. Dyma ganolfan bywyd ; dyma ffynnon y bywyd ei hun. Mae meddyginiaeth ysbrydol yn llawer pwysicach i ddyn na meddyginiaeth o dir y corff a'r giau, ac mae owns o foddion ysbrydol yn rhagorach nag afon o gyffeiriau gwenwynllyd neu gyffredin. Yn sicr ddigon, cyn bo dyn yn gandryll gorfforol, y mae'n gandryll ysbrydol ymhell cyn hynny. Hwyrach fod y gosodiad hwn yn llym a rhy agored ond yr wyf yn cyfaddef yn rhwydd, ac yn cymeryd y ffaith i ystyriaeth o'm profiadau fy hun ac eraill, y medr damwain andwyo a pheryglu yr ystad gorfforol a dwyn blynyddoedd lawer o nychtod a phoen pan fo'r ystad ysbrydol yr un pryd ar gynnydd. Yn sicr, cynnydd ysbrydol ydyw gwir *lwyddiant bywyd*. Gwyn fyd na welai'r wlad y llythrennau hyn fel tân uwch ei phen ac y symbylid ein harweinyddion i lwyr sylweddoliad o'r ffaith ddigyfnewid hon. Hyd hynny, bydd ein golygon yn hir ar ddynol fagwyrydd candryll a'n calonau'n drymach oherwydd hynny oblegid—'Nid byd, byd heb wybodaeth.'

Briwsion Mathias.

HELP LLAW.

Y MAE tinc Undodaidd yn yr hen ymadrodd yma o Sir Aberteifi. Ni fydd Undodwr byth yn rhy barod i ddweud, "Fe weddïaf drosoch," ond fe ddywaid, "Mi ro'i help llaw i chi," yn rhwydd a di-dramgwydd. Nid yw hyn ond ffordd arall o weddïo hwyrach ; un weddi yn defnyddio geiriau fel cyfrwng a'r weddi arall yn defnyddio'r dwylo.

Pan fyddo gŵr a gwraig ifanc yn dechrau eu byd, fe fydd pob cymydog yn barod i roddi help llaw iddynt. Symud y dodrefn, cywain llwyth o goed a rhoi'r darluniau yn eu lle ar y mur. Y tâl fydd cyfeillgarwch cymdogol, (ac ambell i bip fach slei i weld beth oedd yn y drâr seld efallai ! !).

Fe fydd bechgyn a merched ifainc y gwledydd yn "dechrau byd" *newydd* ar ôl y rhyfel yma ; a fydd y cymdogion Undodaidd yn barod i rhoi help llaw ? Menter ofnadwy yw dechrau byd ac fe fydd eisiau help. Fe wnaethpwyd ymgais ar ôl y rhyfel diwethaf ond fe aeth yn ddifôrs whop iawn. Ychydig iawn o gymorth a roddwyd gennym fel gwlad i geisio addysgu ein pobl yn y grefft o fyw fel teulu. Ar y mwyaf, trigain mil o bunnoedd a gyfrannwyd gennym mewn un flwyddyn tuag at y gwaith. Y mae'n costi trigain mil i gadw Ysgol Sir dda—ond dyna'i gyd oedd gwerth heddwch i ni mae'n debyg. Meddyliwch am hyn a chofiwch am hyn pan ddaw'r briodas nesaf. Help llaw os gwelwch yn dda —ond cofiwch fod rhaid wrth gariad hefyd i gadw'r teulu'n gytun. Fe aeth Iesu i'r briodas gynt—dylid ei wahodd i hon eto. Mae "dechrau byd" yn bwysig.

* * * *

A heuo ddrain na fydded droednoeth.

Cadarna'r mur po arwa'r garreg.

Arfer corgwn yw cyfarth.

Hen Ddiarhebion.

* * * *

Nid yw larwm o fawr werth oni bydd y cloc yn cadw'i amser.

* * * *

Ces fy nhwyllo yn fy mrodyr,
Ces fy nhwyllo yn y byd ;
Ces fy nhwyllo yn fy hunan
Lawer mwy na'r rhain i gyd.

Hen Bennill.

Priodas.

Mai 6, yng Nghapel Llwynrhydowen, EVAN TOM (IEUAN) EVANS, Glantre, Llandysul a ANNIE CHARLOTTE REEVES, Tegfan, Llandysul. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins a Kemes Lewis (Pisgah).

Marwgofion.

Ar Ebrill 15 bu farw Mrs. CECILIA WILLIAMS, Plas y Nant, Trebanos yn 85 mlwydd oed. Cyhyd ag y gallodd yr oedd yn ffyddlon yng nghynulliadau Capel y Graig, ac er pallu o'r corff yn y blynyddoedd diwethaf a'i chaethiwo i'r aelwyd ni anghofiodd ofynnion ei chapel. Claddodd ei phriod bymtheg mlynedd yn ol, ac yn galaru amdani hithau y mae tri o feibion a'u cysylltiadau. Hanai o deulu Ty Gwyn—teulu a fu'n bileri yng Ngellionnen am flynyddoedd maith. Dan gronglwyd y teulu hwn y treuliodd John James, Gellionnen ddiwetydd ei oes. Dyna dras Mrs. Williams, ac fe gerddodd hithau'n ffyddlon i'r traddodiad. Dynes foneddig ydoedd. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Coedgwilym. Gweinyddwyd gan y Parchedigion J. D. Jones, T. Jones a Dl. John.

Mai 10 yn 47 mlwydd oed bu farw RACHEL annwyl briod Mr. Tom Jones, Plough Inn, Lampeter yn Ysbyty Aberystwyth. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf ers blynyddoedd ond ni feddylid fod y diwedd mor agos. Merch Tafarn Cwmanne ydoedd ac yno y bu byw hyd iddi symud i'r dref ychydig flynyddoedd yn ol. Gwraig dawel a boneddig ydoedd, blaen ac o galon fawr. Yn ei chwmni yr oedd bob amser mor dawel, a ran amlaf ar ei gwên. Ni wylltid mohoni. Cerddai yn hamddenol drwy fywyd gan gadw ei chymeriad yn lân. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams gyda chynorthwy caredig y Parch. Daniel Jones, Noddfa. Gadawodd briod yn unig, un brawd a nifer luosog o berthynasau a ffrindiau i wylo am ei symud mor gynnar.

Mai 11 yn 66 mlwydd oed bu farw wedi cystudd caled DANIEL JONES, Brooklands, ger Llanybyther, ond gynt o Flaenpant, Drefach, Llanwenog. Y mae'r hen gyfeillion ' true to nature ' yn cael eu symud. Ddoe Guto'r Go, heddiw Dan Blaenpant ; a'r ddau rywsut yn byw eu crefydd ac nid yn ei phroffesu yn yr amlwg. Yr oedd Dan wedi rhoi i fyny ffermo ers blynyddoedd gan ddewis porthmana a byw ar ei ben ei hun yn y Brooklands. Cymeriad llawen a chysurus ydoedd, a churai calon garedig ynddo. Ar waethaf llawer storm a thywydd garw, cadwodd ei ffydd seml yn olau ac iddo air da ymhlith ei gydnabod a'i ffrindiau. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchedigion S. E. Bowen, Lewis Williams a T. O. Williams, M.A., ac yn yr Eglwys a'r Fynwent gan Ficer Llanybydder, Mr. Jones Drefach a Ficer Llanwenog. Gadawodd bedair chwaer heblaw nifer o berthynasau eraill a llu o hen gydnabod a ffrindiau i weld ei eisiau ac i wylo deigryn distaw o golli ei gwmni diddan.

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth Dr. THOMAS EVANS, Parc, Ciliau Aeron, a gymrodd le Mai 1, ac yntau'n 71 mlwydd oed. Tua dau fis yn ol y deuwyd i wybod nad oedd ei iechyd yn dda, ond ni feddyliwyd fod ei ddiwedd yn agos, ac achosodd ei ymadawiad drallod mawr. Bu'n llwyddiannus fel efrydydd yn University College Hospital Llundain. Enillodd yno bedwar medal, ac yr oedd dau ohonynt yn fedalau aur. Wedi gorffen ei amser yno, bu'n gwasanaethu fel meddyg yn Croydon, yn Sir Forgannwg, ac mewn lle arall. Ym mhen ychydig flynyddoedd enillodd y radd o D.P.H., a phenodwyd ef yn Medical Officer of Health dros Sir Benfro. Ar ol bod yno flwyddyn cafodd ei

benodi fel Medical Officer of Health dros dref Abertawe. Yno y bu hyd cyrraedd oedran ymddeol. Gweithiodd yn galed yn y lle hwn, ac ar ddydd ei ymadawiad dygwyd tystiolaeth uchel iddo fel un yr oedd ei gyngor parthed diogelu iechyd y dref wedi bod bob amser yn un cywir a da. Prawf y credid felly amdano, ac y gwerthfawrogid ei waith oedd i aelodau Cyngor y Dref roddi pensiwn iddo a oedd uwchlaw yr hyn a allai hawlio. Wedi iddo ymneilltuo o'i alwedigaeth cymrodd ddiddordeb mawr mewn amaethyddiaeth, a bu yn amaethu yn y Parc a Thangaer, dwy fferm o'i eiddo. Rhoddai bwys mawr ar gynyrchu llaeth pur. Y llynedd ef oedd cadeirydd y gangen yn y Sir o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Yr oedd yn frwdfrydig gyda Chlwb y Ffermwyr Ieuainc yn y lle. Ond nid bywyd unochrog oedd bywyd Dr. Evans, eithr un helaeth. Yr oedd yn frwdfrydig gydag ochr grefyddol bywyd ; yn ddiacon yng Nghapel Ciliau Aeron, ac yn gyson yn y gwasanaethau. Helpai'r achos ym mhob modd, ac nid oedd byth yn brin ei gyfraniadau. Cefnogai bob achos da yn yr ardal. Yr oedd ei bersonoliaeth urddasol, ei ysbryd hynaws, ei unplygrwydd, ei uniondeb a'i ddaioni wedi ennill iddo barch mawr, ac y mae y golled ar ei ol, yn y teulu, yn y capel, ac yn yr ardal, yn enfawr. Claddwyd ym mynwent Capel Ciliau. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. T. J. Jones, Ficer Ciliau Aeron. Gadawodd un brawd, pedair chwaer, a brodyr yng nghyfraith, a neiaint, ac amryw o berthynasau eraill mewn galar dwys.

Ar yr un amser a'r gladdedigaeth ym mynwent Capel Ciliau cynhaliwyd gwasanaeth coffa yng Nghapel yr Undodiaid Abertawe. Yn y capel hwn yr oedd Dr. Evans yn aelod ffyddlon, yn un o'r ymddiriedolwyr, ac am rai blynyddoedd yn drysorydd. Saif y capel yng nghanolfan y dref y rhoddodd ef y rhan fwyaf a'r rhan orau o'i fywyd er mwyn ei gwella. Gweinyddwyd gan y Parchedigion Basil Viney a Simon Jones. Yn y gynulleidfa yr oedd y Maer a'r Cyngor ynghyd a chynulliad llawn o gyfeillion a chydweithwyr Dr. Evans. Daeth i Abertawe ar adeg pryd yr oedd dynion yn dechrau sylweddoli pwysigrwydd Iechyd y Cyhoedd. Felly cyfnod cychwyn datblygiadau mawr ydoedd. Gyda defosiwn ysbryd wedi ei gysegru ymaflodd yn y tasc o greu cyfryngau newydd o wasanaeth. Tan ei gyfarwyddyd cynyddodd y gwaith o'i ddechreuadau bychain hyd nes yr oedd gan Dr. Evans, ar adeg ei ymddeol, wyth o feddygon yn rhoi eu hamser yn gyflawn i'w wasanaethu, dwy ddwsin o feddygon yn rhoi eu hamser yn rhannol, rhyw drigain nyrs a gweithwyr eraill, ac yn ei adran ef o waith y Cyngor yr oedd ugain clerc. Nid yn unig cyfarwyddo datblygiad y gwaith a wnaeth, ond gosododd hefyd safonau uchel, a sylfaenodd draddodiad rhagorol. Ymdrechodd i dynnu allan o'i swydd y gwerth uchaf a oedd ynddi. Yn ol Syr Henry Jones, hynny ydyw hanfod moesoldeb. Ni cheir teyrnged fwy huawdl i'w waith na geiriau ei olynydd, a oedd hefyd yn gydweithiwr iddo, yn ei adroddiad i'r Cyngor. Peth anarferol i olynydd mewn unrhyw swydd ei wneud.

"In him you lost a medical officer who was enthusiast in the cause of Public Health, and who had rendered distinguished service in that cause. He was a most disinterested champion of the poor and suffering, and had little respect for any system, social or professional, if, in his opinion, it did not lend itself to the effective prevention, or efficient early treatment of disease. He had given much labour and thought to . . . treatment in the School Medical Service [yn y gwaith hwn gofynnai'r Bwrdd Addysg yn fynych am ei farn], and was a shrewd and capable investigator of infectious disease. One of his dearest projects was the advancement of maternity and child welfare, and he took particular pride in the opening of the Municipal Maternity Hospitals, the institution of Ante-natal Clinics, and, finally, in the introduction of a domiciliary service of salaried midwives under the control of the Local Authority. He had the satisfaction in the last year of his office of seeing the maternal mortality rate for Swansea reduced to 1.9, the lowest in England and Wales for that or any previous year."

Drwy'r cyfan i gyd parhaodd yn ddirodres, yn gyfeillgar, yn serchus ac yn ffyddlon, yn falch o'i enwad, a gall ei enwad fod yn falch ohono yntau, brwydrwr gwrol yn achos dynoliaeth iachach.

Nodion yr Eglwysi.

LLANBEDR.—Wrth groniclo priodas Mr. a Mrs. Johnnie James, Y Siop, Cwmanne, yn y rhifyn diwethaf gadawyd allan enw y Parch. D. Williams, Gweinidog y Methodistiaid ym Mhontypridd ac ewythr y priodfab. Yr oedd yn dda gennym gael ei gynhorthwy parod a'i gwmni diddan yn y briodas.

PANTYDEFAID.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Undodiaid cylch Llandysul ym Mhantydefaid, Sul, Mai 14. Gyda cynulliadau lluosog, tywydd hafaidd a naws gyfeillgar cafwyd cyfarfodydd hapus a buddiol. Yr holwr eleni oedd Prif-athro J. Morgan James o Gellan, Llanbedr, un o blant Eglwys Pantydefaid, a gwnaeth ei waith yn hwylus iawn. Rhoddodd glod arbennig i'r plant. Gwerthfawr iawn oedd ei anerchiad yn yr hwyr i ieuenctid y wlad. Roedd y canu yn nwylaw medrus Mr. Tom Davies, a chanwyd yr organ gyda'i swyn arferol gan Miss Lil Lewis. Diolchwyd i'r gynulleidfa ym Mhantdefaid gan y Parch. E. O. Jenkins a llywyddwyd y cyfarfodydd gan weinidog y lle.

CYMANFA YSGOLION.—Cynhaliodd ysgolion Sul Ciliau Aeron, Rhyd-y gwin, Cribyn, Capel y Bryn, a Chapel y Cwm eu cymanfa flynyddol yng Nghribyn ar Fai 19. Yng Nghiliau Aeron yr oedd y gymanfa i fod, ond yr oedd Cribyn yn fwy cyfleus oherwydd anawsterau teithio. Pobl Ciliau Aeron oedd yn gwneud y trefniadau ac yn dwyn y treuliau. Cyflawnwyd y rhannau arweiniol gan y Parch. A. J. Martin, B.A. Ar ol hynny holwyd y plant yn fedrus iawn gan Miss Evans, Cwrtnewydd. Un bennod, Luc xv, oedd gan yr ysgolion i gyd, a holwyd hwy gan y Parch. Lewis Williams. Cafwyd adroddiad da o'r bennod, a phrofai'r atebion deallus i'r ysgolion gael gafael ar ddysgeidiaeth y damhegion. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad a theulu'r diweddar Dr. Thomas Evans, Parc, Ciliau Aeron, ac a Mr. Evan Hughes, Dihewyd yn ei afiechyd. Yn yr hwyr caed rehearsal ar gyfer y Gymanfa Ganu, Mr. David Evans, Cwrtnewydd, yn arwain.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. ar y dydd Sul cyntaf o'r mis am 4.15 p.m. Yr oedd yr ystafell fechan yn llawn ar y Sul cyntaf ym mis Mai, ac mewn oedfa ardderchog rhoes y Parchedig J. D. Jones, B.A., B.D. bregeth amserol iawn inni, yn dangos yr ysbrydiaeth y medrwn ei gael yn y tywyllwch presennol yma oddi wrth y gweledigaethau a gafodd Zecharia trwy "edrych yn y nos." Gobeithiwn yn fawr na fydd eisiau i ni aros yn hir cyn y cawn weled a chlywed Mr. Jones eto. Balch hefyd oedd gennym weld Mrs. Jones yn y gwasanaeth. Penderfynodd y Pwyllgor, wedi siarad a Mr. Jones, ein bod yn ymuno a'r Gymdeithas Gymraeg, a hefyd ein bod yn gwneud rhodd fechan at yr YMOFYNNYDD. Cawn drafod maint ein cyfraniadau at y ddau yn ein cwrdd eglwys hanner-blynyddol ym mis Gorffennaf. Yr oedd ein Cadeirydd yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf yr L.D.P.A., a phleser oedd ganddo ddeall bod y Parchedig Magnus C. Ratter wedi derbyn y gwahoddiad i gymryd y swydd o Ysgrifennydd-Weinidog yn olynydd i Mr. Pearson. Gobeithio y cawn ei gwmni yn ein gwasanaethau cyn hir. Gyda llaw, casglwyd £3/13/4 gennym ar Fai 7, at y dysteb i Mr. Pearson. Pleser mawr ydyw clywed bod Mr. David Davies (Dai Llwynifan) mewn iechyd da unwaith eto—y mae ef yn ardal Malta. Da oedd gennym weled awyrwyr yn ein gwasanaeth diwethaf.

Trefn y dyfodol :—Gorffennaf—Y Parch. D. Jacob Dafis.
Awst—Y Parch. Aubrey Martin, B.A.
Medi—Y Parch. E. R. Dennis (neu ein Cadeirydd).

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar Fai 4 er mwyn dangos ein bod yn gwerthfawrogi gwaith yr ysgrifennydd a'r

trysorydd. Llywyddwyd a chymrwyd y rhan ddefosiynol gan y gweinidog. Estynnwyd y dysteb (cod o arian) i Mr. Daniel W. Bowen, yr ysgrifennydd, gan Mrs. T. Llanorfab Jones, a gwnaeth Mrs. W. James yr un peth i Mr. David J. Bowen, y trysorydd. Bu'r ddwy chwaer hyn yn ddiwyd yn casglu'r dysteb a choronwyd eu hymdrechion a llwyddiant mawr. Dros y gynulleidfa siaradwyd gan Mr. John Hopkin a'r Parch. Lewis Morgan. Datganodd y beirdd hefyd eu molawdau—sef, Llanorfab a Bes (Mrs. Bowen Bevan). Mewn geiriau hyfryd iawn mynegodd y ddau swyddog eu teimladau a'u diolch. Yn cymryd rhan yn rhaglen y cyfarfod yr oedd Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. wrth yr organ. Chwaraeodd ddwy unawd. Cafwyd unawdau gan Mrs. R. Rowlands, Mrs. E. Lewis, Mr. Richard Lewis, a chafwyd adroddiadau gan Mrs. M. T. Davies a Miss Nansi Evans. Y mae Mr. Daniel W. Bowen, yr ysgrifennydd, wedi gwasanaethu'r gynulleidfa am 32 o flynyddoedd, ac y mae Mr. David J. Bowen, y trysorydd, wedi dal ei swydd am 22 o flynyddoedd. Anfynych mewn unrhyw gynulleidfa y gwelir dau weithiwr mor ffyddlon. Po fwyaf eu cyfrifoldeb mwyaf eu plesir. Bendith i gynulleidfa yw cael swyddogion fel y deuddyn hyn. Cyflawnant eu dyledswydd yn anrhydeddus, ac ni phetrusant gerdded yr "ail filltir." Nid digon dweud eu bod yn ffyddlon, ond y maent yn *gyhoeddiayr* ffyddlon.

Anrhydedd i'r gynulleidfa yw dyrchafiad y Cynghorwr D. G. Thomas, Y.H., un o'n diaconiaid, i gadair y Pontardawe Rural District Council. Dyn ifanc wedi ennill gair da'r gymdogaeth fel "helpwr y gwan" yw Mr. Thomas, ac yng nghylchoedd gweithiau dur y wlad y mae ei enw yn adnabyddus. Gwasanaetha hefyd ar Gyngor Plwy Rhyngdwyclydach, a'r llynedd ef oedd cadeirydd pwyllgor y West Glamorgan Guardians. Oddiar ei gychwyn bu'n gadeirydd pwyllgor y Pontardawe Food Control, ac y mae amryw gynghorau a phwyllgorau eraill yn hawlio ei amser. Yn undebwr i'r carn, y mae eisoes wedi gwasanaethu fel ysgrifennydd undeb am 19 o flynyddoedd, ac ef sy'n cynrychioli'r gweithwyr alcan ar gyngor yr Iron and Steel Trades Confederation. Yn ystod blynyddoedd y dirwasgiad yng Nghwm Tawe ni weithiodd neb fwy yn achos y di-waith. Uweh ac uchach yr él.

Postscript y Golygydd.

CYWIRO GWALL.—Ymddengys i'r cysodydd adael allan y gair "torri" yn adran vii, tud. 70, o YMOFYNNYDD Mai. Darllener "Mae'n amlwg nad oedd torri calon mam a thad . . ."

NEWYDD TRIST yw clywed am farw y Parchedig H. H. C. Jones, B.A., Y.H., Aberdeen. Bydd teyrnged i'w goffadwriaeth yn rhifyn Gorffennaf.

CYDNABUWYD yn ddiweddar waith Dr. Dexter gan lywodraeth yr Unol Daleithiau. Ers dwy flynedd y mae yn Lisbon ar ran yr American Unitarian Relief Organisation yn ymgeleddu ffoaduriaid Ewrop. Apwyntiwyd ef gan y llywodraeth yn "special attache with diplomatic status." Arwydd yw'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd ei waith yn awr ac yn y dyfodol.

DEALLIR fod y Parchedig G. J. Sparham sydd yn awr yn gwneud gwaith gwerthfawr ar ran yr Hibbert Houses yn Cairo wedi ymddeol o fugeiliaeth Capel Lewin's Mead, Bryste. Wyr yw Mr. Sparham i Griffith John, y Cenhadwr.

SEFYDLWYD y Parchedig T. J. Jones, B.A. yn weinidog i gynulleidfa'r Undodiaid yn Hindley. Cyn hynny yr oedd yn weinidog yn Doncaster. Cymro o Ynysybwl, Sir Forgannwg ydyw, ac yn weinidog brwdfrydig nad yw'n ofni torri tir newydd. Am rai blynyddoedd bu'n weinidog yng Nghyfundeb y Methodistiaid yng Ngogledd Cymru cyn iddo ymuno a'r Undodiaid.

SIOM ydyw clywed fod y gynulleidfa Undodaidd ym Mau Colwyn wedi gorfod terfynu cynnal y gwasanaethau. Anawsterau'r amser sy'n gyfrifol am hyn.

PRIFATHRO newydd yr Unitarian College, Manceinion, yw'r Parchedig R. V. Holt, M.A., B. Litt., athro mewn Hanes Eglwysig yn Manchester College, Rhydychen. Y mae ar hyn o bryd yn golygu cyfres o lyfrau ar "Grefydd mewn Byd Cyfnewidiol."

GWAHODDWYD y Parchedig G. J. G. Grieve, M.A. (Highgate) i'r Unol Daleithiau fel cynrychiolydd y General Assembly. Y mae Mr. Grieve yn adnabyddus yng Nghymru fel ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd. Ef yw cadeirydd yr Unitarian Service Committee, a chynrychiolydd Prydain ar yr American Unitarian Service Committee sy'n gwneud gwaith mor ragorol ar gyfandir Ewrop.

Gohebiaethau.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Parch. D. Jacob Dafis am ei adolygiad têg, a ffafriol ar y cyfan, o'r pamffled a sgrifennais ar Egwyddorion yr Undodiaid.

Oes frysiog yw ein hoes ni, ac nid oes amynedd gan y dyn cyffredin i ddarllen ilithiau hir ar bynciau diwinyddol; am hynny, ceisiais grynhoi prif egwyddorion ein crefydd i gylch bychan fel y gall dyn diwyd gael syniad gweddol gywir amdanynt mewn ychydig amser. Am y rheswm hwn bu raid i mi wneud fy sylwadau yn fyr iawn.

Nid wyf yn cydweld a Mr. Dafis fod gwall yn yr ymadrodd "*perchi* ac addoli Duw." Berf-enw o'r gair parch yw *perchi*, a ffurf arall ar yr un berf-enw yw parchu (Gweler "Orgraff yr Iaith Gymraeg," gan Bwyllgor Llên Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd Prifysgol Cymru, tud. 99).

Y mae'r gair *perchi* yn hŷn ac yn fwy clasurol na 'parchu' a defnyddir ef yn y Testament Newydd (Effes v., 33).

Galwyd sylw at y gair hwn gan ddau ysgrifennydd, o leiaf, yn ddiweddar, sef gan y Parch. D. Tecwyn Evans, B.A. yn ei lyfr "Yr Iaith Gymraeg" (tud. 24), a chan y Parch. R. S. Rogers, B.A. yn "Llyfr Gloywi Cymraeg" (tud. 91). Fel hyn yr ysgrifenna Mr. Rogers: "Y mae dwy ffurf ar ambell air, e.e. defnyddir parchu a perchi, a sangu a sengi. Perchi a sengi ar bob cyfrif sy'n gywir, a thrueni na ddefnyddid hwy yn fwy cyffredinol."

Bu yr Athro J. Morris Jones yn darllen proflenni y ddau lyfr olaf a enwais, felly cymeraf yn ganiataol iddynt dderbyn ei gymeradwyaeth.

Efallai y caf ddweud gair ar y gwyrthiau wedi i eraill draethu eu barn.

J. Islan Jones.

ESBONIO'R BEIBL.

Syr,—Cyfnod cyhoeddi Cofiannau a Hunan-gofiannau yn ddiau yw ein cyfnod ni. Ceir pleser yn eu darllen: ceir ynddynt rywbeth i gnoi ein cil arno. Yn ôl cofiant Dr. Barnardo, ffrind a noddwr plant bach amddifad, mae'n debyg iddo osod ei fryd ar y genhadaeth dramor ar ddechrau ei yrfa, ond yn ffodus—i filoedd o blant o leiaf—arhosodd gartre. Yn hunan-gofiant Syr Denison Ross (a fu farw dair blynedd yn ôl) dywedir fod Renan yn medru gwneuthur esbonio'r Beibl fel darllen stori dditeetif. Gwyn fyd pe gallasem ni, yn weinidogion ac athrawon Ysgol Sul! Yr eiddoch,

Llundain. Ap Ioan,

CYWYDD GOFYN AM YSGRIFENNYDD I GYMRU

(Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Myfyrwyr Cymru 1944).

(At y Brenin Siôr).

Y gŵr mwyn a gŵr o'i maeth
A fagodd pendefigaeth.
Hywel Dda a haul ei ddydd
A'i glod ar hyd y gwledydd.

. . . .

"Frenin Siór ti ragori
'Rwy'n caru dy deulu di,
A gorwedd ar dy goron
Yn nydd yr ing nawdd yr Ion.
Ni hoffwn un anghaffael
Yn boenau it, O ben hael.
Dyro haul a dyro hedd,
I dir gwerin, drugaredd.
Rho ' lêd ' i Dŷ'r Cyffredin
A hyn o brawf o'i ddawn brin ;
O le cul hualau caeth
Goranodd cael gweriniaeth.
Er addo ni roes ryddid
Ein Llyw, O arbed ein llid !
Dyfal sarhad a gwlad gaeth
Sy'n elyn personoliaeth.

Erchi 'rwyf nid arch ryfedd
I fwyn hael a fynno hedd ;
Galwad a rôf mewn gwlad rydd
A fynna Ysgrifennydd.
Y mae cais am lais i wlad,
Cwyno am nad oes Cennad,
Cennad dros Wlad fy Nhadau
A phawb yn y bur hoff bau ;
Annwyl yw ein gwlad inni
A'n bron ymchwydda o'i bri.
Iawn caru, parchu, perchen
Iaith lwys a thoreth o lên :
Erddi defnyddia d'urddas,
Y gwych, cymer agwedd gwas.

Hawl i'w cred i rai gwledydd
Addewaist, rhoddaist yn rhydd,
O weled fod i wlad fach
Allu i ddwyn cyfeillach
O feddw boen fe ddaw y byd,
O'i efrau i gnwd hyfryd.
Wedi'r lladd, y dur a llwch
A dioddef daw heddwch.
Gwerthoedd a ddônt i'w gwrthol
A briw ffydd o lwybrau ffôl.

Llafar gawn yn Llyfr y Gwir,
"O guro fe agorir"
Curwn yn ysbryd cariad,
Yn ein bron nid oes un brad.
'Sgrifennydd, was cryf fynnwn,
I ddwyn baich sydd heddiw'n bwn.

. . . .

Yn ddi-boen fe ddaw y Bil,
O gofio siarso Siersil ! "

D. Jacob Davis.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.